**Leighton Andrews AC / AM**
**Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus**
**Minister for Public Gwasanaethau**

Ein cyf/Our ref: SF/LA/3913/14

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

At:
Arweinwyr Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru

Copi at:
Brif Weithredwyr a Chyfarwyddwyr Cyllid,
Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol yng Nghymru

Prif Weithredwr a Chyfarwyddwr Cyllid,
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

10 Rhagfyr 2014

Annwyl Gyfeillion,

**Setliadau Refeniw a Chyfalaf Llywodraeth Leol 2015-16**

Heddiw, rwyf yn cyhoeddi manylion Setliadau Refeniw a Chyfalaf Terfynol Llywodraeth Leol ar gyfer 2015-16 i'r Awdurdodau Lleol yng Nghymru trwy Ddatganiad Ysgrifenedig i'r Cabinet. Amgaeaf y datganiad er gwybodaeth ichi.

Mae manylion llawn y Setliad yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae'r wybodaeth hon, ynghyd â'r manylion yr wyf yn eu darparu ar y Grantiau Refeniw a Chyfalaf sydd i'w darparu i Lywodraeth Leol yn rhoi ichi'r wybodaeth y mae arnoch ei hangen i bennu'ch Cyllidebau a lefelau'r Dreth Gyngor am 2015-16.

Rwyf wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Setliad Dros Dro yn ofalus cyn penderfynu ar y Setliad Terfynol. Ni nododd yr ymatebion unrhyw faterion sy'n gofyn am newid yn y ffordd yr ymdrinnir â'r Setliad Terfynol.

O fewn y Setliad, mae arian refeniw heb ei neilltuo ar gyfer 2015-16 yn dod i £4.125 biliwn – rhywfaint yn uwch na'r swm a gyhoeddais ym mis Hydref. Mae'r cyllid a gyhoeddwyd heddiw yn ostyngiad o 3.4% (£145 miliwn) ers 2014-15, ar ôl ei addasu ar gyfer trosglwyddiadau i mewn i'r Setliad ac allan ohono.

Cafwyd rhai newidiadau i ddyraniadau Awdurdodau unigol o'r Setliad Dros Dro. Mae'r newidiadau hyn yn adlewyrchu i raddau helaeth y drefn o gynnwys data wedi'i diweddaru am y sylfaen drethi yn ymwneud â 2015-16.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Leighton.Andrews@wales.gsi.gov.uk

Rwyf hefyd yn cyhoeddi ar ein gwefan yr wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael am grantiau refeniw a chyfalaf cynlluniedig i'r Awdurdodau Lleol, ar gyfer 2015-16. Mae hyn yn rhoi darlun cynhwysfawr o'r arian oddi wrth Lywodraeth Cymru i Lywodraeth Leol. Mae'r wybodaeth am grantiau'n cynnwys manylion arian y Grant Cytundeb Canlyniadau sy'n cael ei ddosbarthu ar yr un sail ag yn y blynyddoedd blaenorol. Hoffwn bwysleisio, er hynny, fod yr arian y bydd Awdurdodau unigol yn ei gael yn amodol ar gyflawni'r canlyniadau y cytunwyd arnynt, mesurau gwella a mesurau iechyd corfforaethol.

Wrth bennu'ch cyllidebau a lefelau'r Dreth Gyngor ar gyfer 2015-16, rwyf yn eich annog i ystyried sut y gallwch ymgysylltu â'ch cymunedau lleol wrth lunio'ch cynigion a gwneud penderfyniadau am y gyllideb.

Rwyf yn barod i ddefnyddio'r pwerau capio sydd ar gael imi os byddaf yn credu bod y cynnydd arfaethedig yn y dreth gyngor yn ormodol. Rwyf y hefyd yn disgwyl i bob awdurdod gymryd yr holl ffrydiau ariannu i ystyriaeth wrth ystyried darparu gwasanaethau a phennu ei gyllideb ar gyfer y Dreth Gyngor.

Byddaf yn gosod *Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol Rhif 1* yn 2015-16 i'w drafod yn y Cynulliad ar 13 Ionawr 2015.

Yn gywir,

**Leighton Andrews AC / AM**
Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Minister for Public Gwasanaethau